**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 12.30 hyd 4.00 pm |
| **Teitl:** | **Mesur Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy: papur gan Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru** |

## Cyflwyniad

Mae Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru (Cyswllt Cymru) yn cynrychioli buddiannau cyffredin y 30 corff sector cyhoeddus sy'n aelodau ohono. Mynediad, bywyd gwyllt a thirlun yw eu pryderon pennaf. Mae Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru yn croesawu'r Mesur oherwydd y ddarpariaeth ar gyfer mynediad cyhoeddus cyfrifol a chynaliadwy a'r gwell gwarchodaeth i fywyd gwyllt a geir o ganlyniad. Rydym yn cymeradwyo gwaith paratoadol y Cynulliad ar gyfer y Mesur hyd yn hyn, ac rydym yn falch o gael y cyfle i gyfrannu at farn y Cynulliad yn y maes hwn.

Bydd gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i weithredu gofynion y Mesur, unwaith y bydd wedi ei gyhoeddi, yn dibynnu ar:

- Ddatblygu'r Rheoliadau yn gyflym – felly gofynnwn am ymgynghoriad buan ac amserlen glir
- Sicrhau bod digon o arian ar gael i'r cyrff perthnasol (y Cyngor Cefn Gwlad, Awdurdodau Unedol a'r Parciau Cenedlaethol yn bennaf).

Bu cefnogaeth y cyhoedd yng Nghymru i'r ddeddfwriaeth yn gryf erioed. Dengys ymchwil gan NOP dros y tair blynedd diwethaf bod 4 o bob 5 o bobl yng Nghymru yn cefnogi'r mesurau rhyddid i grwydro a bywyd gwyllt yn y ddeddfwriaeth. Ar hyn o bryd mae 4,800 o swyddi yn ddibynnol ar gerdded yng Nghymru a bydd mwy yn cael eu creu o ganlyniad gweithredu'r ddeddfwriaeth hon.

## Rhan 1: Mynediad i gefn gwlad agored

Tir arfordirol

Mae Cyswllt Cymru yn pwyso ar y Cynulliad i gytuno mewn egwyddor y dylid dynodi arfordir

Cymru yn dir mynediad gan sicrhau felly ei fod ar gael i bobl ei fwynhau ar gyfer hamdden dawel – yn unol â diogelwch cyfreithlon i warchod bywyd gwyllt a buddiannau eraill. Gwyr aelodau Cyswllt Cymru bod rhai ardaloedd arfordirol yn fregus ac felly mae angen gwahaniaethu rhwng ardaloedd lle byddai angen rheolaeth gofalus ar fynediad e.e. systemau twyni tywod a'r ardaloedd lle na fyddai angen cyfyngu mynediad e.e. rhostiroedd arfordirol.

Mapiau

Rhaid mapio yr holl dir sy'n fynydd, gwaun, rhostir, twyn a thir comin, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, fel tir mynediad – gan gynnwys ffridd. Bydd y dull cynhwysfawr yma yn sicrhau cysondeb ac yn cryfhau hygrededd y cyhoedd yng nghywirdeb mapiau tir mynediad.

Dylid cynllunio'r cyhoeddusrwydd ar gyfer yr ymgynghoriad a'r mapiau terfynol yn ofalus a dylai gynnwys cysylltu â cherddwyr o Gymru a thu hwnt. Rhaid sicrhau bod rhan y cyhoedd yn y broses yn cael o leiaf yr un sylw â rhan y tirfeddianwyr. Mae cyhoeddi gwybodaeth ar safle'r Cynulliad a'r/neu'r Cyngor Cefn Gwlad ar y we yn rhan hanfodol o'r broses hon.

Rhaid i'r amserlen ar gyfer mapio ddarparu ar gyfer ystyried cynrychioliadau cam cyntaf yn llawn er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o apeliadau. Er lles y cyhoedd mae'n well cael cyn lleied â phosibl o apeliadau, a sicrhau bod y rhai hynny yn cael eu prosesu'n fuan, er mwyn sicrhau bod mapiau ar gael cyn gynted â phosibl. O wneud hyn bydd y cyhoedd yn gwybod ym mhle y cânt gerdded ac, o'i gadarnhau, bydd y tir mynediad yn amlwg. Credwn y bydd hyn hefyd yn gymorth i dirfeddianwyr. Nid oes modd gwneud apeliadau ffurfiol os nad oes gan bobl fuddiannau yn y tir. Rydym yn pwyso ar ei wneud yn ofynnol i'r rhai hynny sy'n debygol o apelio ddefnyddio'r dull cynrychioladol o weithredu er mwyn datrys eu hachos cyn apelio. Pwyswn ar y Cynulliad i gynllunio i ddelio â'r apeliadau yn gyflym.

Gan y bydd yn flynyddoedd lawer cyn i'r cyhoedd gael mapiau tir mynediad dylai'r Cynulliad ystyried darparu mynediad buan fel yr awgrymwyd yn gynharach gan y llywodraeth.

Cyflwyno tir mynediad yn wirfoddol: cynyddir arwynebedd tir mynediad yng Nghymru o tua 7% gyda chyflwyniad tir y Comisiwn Coedwigaeth. Mae 93% o'r cyhoedd a arolygwyd yng Nghymru yn dymuno cael mynediad i goedwigoedd yng Nghymru (NOP 2000). Pwyswn ar y Cynulliad i sicrhau'r cyflwyniad hyn yn fuan.

Cau tir a chyfyngiadau

Mae'n rhaid i'r rhain fod yn deg ac yn rhesymol o safbwynt y cyhoedd. Dylai llinell ffôn gwybodaeth gyhoeddus fod ar gael bedair-awr-ar-hugain y dydd. Gallai Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu'r awdurdodau lleol ei chynnal. Mae angen sefydlu proses annibynnol o asesu cau tir a chyfyngiadau er mwyn magu hyder y cyhoedd yn y system, sy'n cynnwys cau tir a chyfyngiadau unigol, a'u sichrau ei bod yn gadarn, yn gredadwy

ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

**Rhan 2 Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Ailddosbarthu RUPPs yn ffyrdd ddidramwy (ychwanegir sylwadau oddi wrth Gymdeithas Merlotwyr Prydain yn y cyflwyniad).

Hyderwn y bydd y Cynulliad, lle bo angen newidiadau, yn sicrhau bod y manylion yn ymwneud â gorchmynion llwybrau yn syml ac yn eglur fel bod y cyhoedd yn deall unrhyw gynigion.

Bydd y dyddiad olaf ar gyfer mapiau swyddogol yn arwyddocaol yng Nghymru – mae'n debyg bod miloedd o geisiadau sy'n ymwneud â llwybrau i'w hychwanegu at y mapiau swyddogol ar sail tystiolaeth hanesyddol heb eu prosesu. Bydd gofyn am waith ymchwil manwl gan wirfoddolwyr am lawer mwy i sicrhau bod treftadaeth llwybrau hanesyddol Cymru yn cael ei gwarchod gan y gyfraith erbyn y dyddiad olaf. Efallai y bydd y Cynulliad yn dymuno penodi dyddiad olaf hwyrach na 2031 yn yr ardaloedd lle nad yw'r gwaith mapio swyddogol ond megis cychwyn (cymal 53). Efallai y bydd hefyd yn dymuno ystyried yn ofalus sut i sicrhau na fydd grwp pwysig potensial o lwybrau yn cael ei golli a defnyddio rheoliadau i eithrio mathau penodol o lwybrau a llwybrau ceffylau o'r darpariaethau dileu (cymal 50). Mae angen i'r Cynulliad hefyd ystyried anghenion ychwanegol cyrff gwirfoddol ac awdurdodau lleol o safbwynt adnoddau i gwblhau'r gwaith hwn.

Mae pwerau'r Cynulliad yn ei alluogi i ymestyn y mathau o rwystrau y bydd y gofynion gorfodaeth i dynnu rhwystrau yn berthnasol iddynt. Rydym yn pwyso bod gweithdrefn tynnu rhwystrau syml a chyflym yn hanfodol ar gyfer y rhwystrau cyffredin fel bod e.e. ffensys, gwrychoedd a waliau, sef 41% o'r rhwystrau ar lwybrau (CCG 1998), yn cael eu clirio'n fuan. Gobeithiwn y bydd y Cynulliad yn monitro defnydd cymal 60 yn ofalus iawn gyda golwg ar ehangu ei gyfrifoldebau unwaith yr asesir ei werth. Yn ddelfrydol, hoffem ei weld yn cael ei ymestyn i gynnwys aredig, cnydio ac adeiladau (na ddefnyddir fel cartrefi parhaol). Dylai hyn olygu bod canran arwyddocaol o'r 52% o lwybrau Cymru 'nad ydynt yn hawdd eu defnyddio' (dangosydd perfformiad awdurdodau lleol y Comisiwn Archwiliad 1998/9) yn cael eu clirio.

Bydd y Cynulliad yn gallu llunio rheoliadau ar gyfer awdurdodau lleol ar gynlluniau i wella hawliau tramwy. Drwyddo draw mae llwybrau Cymru mewn cyflwr truenus. Gall y rheoliadau wneud yn iawn am ddiffyg datganiadau carreg filltir i ddangos cynnydd tuag at y targed o sicrhau bod pob llwybr cyhoeddus wedi ei ddiffinio'n gyfreithlon, wedi ei gynnal a'i hyrwyddo'n dda drwy benodi dyletswyddau statudol ffurfiol yn rhan o'r cynlluniau gwella. Dylai adroddiadau awdurdodau lleol ar gynnydd a'r gwaith sy'n parhau heb ei wneud i ymgyrraedd â'r anghenion cyfreithlon sylfaenol hefyd fod yn rhan o waith y cynllun gwella.

Mae'r llwybrau anniben sy'n dal i fodoli ynghyd â'r disgwyliadau a gynhyrchwyd gan Rhan 2 yn golygu y dylai'r Cynulliad fynd i'r afael â sicrhau adnoddau (ynghyd ag ymarfer da) ar gyfer gwaith llwybrau. Awgrymir ffigwr o tua £3 miliwn ychwanegol i Gymru ar gyfer gwaith Rhan 2. I roi trefn ar lwybrau Cymru mae angen tua £4 miliwn ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn unig yn ychwanegol at gostau staff (Cymdeithas Tirfesurwyr Sirol 1995). Mae ffynonellau eraill yn awgrymu y gall costau llawn y gwaith hwn yng Nghymru fod cyn gymaint â £40 miliwn.

**Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Areas of Outstanding Natural Beauty)**

Bydd y Mesur, wedi ei gyhoeddi, yn atgyfnerthu dynodiad cadwraeth pwysig rhai o'n tirluniau harddaf. Y pump AHNE yng Nghymru yw: Cadwyn Bryniau Clwyd, Gwyr, Penrhyn Llyn, Dyffryn Gwy ac Arfordir Ynys Môn. Mae trefniadau ariannu tymor hir, diogel ar gyfer gweithredu Cynlluniau Rheolaeth AHNE yn hanfodol. Mae angen cefnogi'r partneriaethau cadwraeth lleol arbennig ym mhob AHNE. O gymharu'r sefyllfa â Lloegr, mae yno 37 AHNE ac mae'r Asiantaeth Cefn Gwlad wedi amcangyfrif bod angen £20 miliwn ar gyfer eu rheolaeth cadwraethol.

**Rhan 3**

***Adran 68***

***Yn darparu modd i'r CCG drefnu cytundebau rheolaeth yn y cefn gwlad ehangach***

Sylw: mae hyn yn darparu pwerau tebyg i'r rhai sydd eisoes ar gael i Awdurdodau Lleol. Mae'r pwerau yn darparu potensial enfawr ar gyfer sicrhau targedau Bioamrywiaeth (gweler Adran 69 isod) yn ogystal â sicrhau nodweddion tirlun.

Gweithred: Yn ein profiad ni, anaml iawn y defnyddir y pwer, nid oherwydd diffyg diddordeb ond oherwydd diffyg adnoddau. Credwn y bydd angen i'r Cynulliad fonitro sut y defnyddir y pwerau, darparu briffio addas ac adolygu adnoddau ar ei gyfer.

***Adran 69 (2): Yn darparu ar gyfer adnabod blaenoriaethau neilltuol yng Nghymru sy'n berthynol i Gynllun Bioamrywiaeth y DU.***

Sylw: Darpariaeth newydd ar gyfer proses newydd, felly dyma gyfle pwysig i ddatblygu dull positif o ymdrin â'r pwnc. Gallai Grwp Bioamrywiaeth Cymru, sydd eisoes yn bodoli, a'r partneriaid allweddol a gynrychiolir ynddo chwarae'r prif ran mewn datblygu'r dull yma o ymdrin â'r pwnc a dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ei wneud yn ofynnol iddynt wneud hynny.

Gweithred: Dylai'r rhestrau rhywogaeth a chynefin i'w cyhoeddi ychwanegu at flaenoriaethau Cynllun y DU.

Mae angen proses a ddylai fod yn seiliedig ar Gynllun Bioamrywiaeth y DU ar gyfer adnabod rhywogaethau neu gynefinoedd ychwanegol o bwysigrwydd.

Mae angen gosod a chyrraedd targedau oddi mewn i Gymru

Mae'n rhaid datblygu'r uchod drwy ddull o weithredu gyda phartneriaid.

***Adran 69 (3)***

***Yn adnabod dyletswydd y Cynulliad Cenedlaethol i weithredu a hyrwyddo'r rhywogaethau a'r cynefinoedd ar y Rhestr***

Sylw: Mae angen adolygiad eang o bolisïau, rhaglenni a gweithrediadau i ymgorffori'r dull positif o ymdrin â rhywogaethau a chynefinoedd pwysig. Fel hyn byddai'n gorwedd ochr yn ochr â dyletswydd ehangach Cynaladwyaeth.

Gweithred: I'r Cynulliad adnabod dogfennau polisi ac yn y blaen (ee Canllawiau Cynllunio, Canllawiau Strategaeth Cymuned, Cynlluniau Parciau Cenedlaethol) sydd angen ymgorffori hyrwyddiad Bioamrywiaeth a sicrhau bod polisïau addas yn cael eu cynnwys ynddynt.

Bydd angen i'r Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo'r dyletswydd hwn i amrediad eang o gyrff cyhoeddus i sicrhau bod eu cynlluniau a'u hymarferion yn adlewyrchu'r dyletswydd hwn.

***Atodiad 9***

Sylw: Mae hwn yn cynnwys manylion deddfwriaeth SDdGA.

***Adran 28 (1) Yn cyfeirio at y tir y dylid ei ddatgan.***

Sylw: Mae tir arfordir Cymru o werth neilltuol i amrediad eang o fuddiannau. Ar hyn o bryd mae'r tir rhwng Distyll Gymedrig a'r Llanwau Astronomegol Isaf yn cael ei eithrio o awdurdodaeth Awdurdodau Lleol ac ni ellir ei ddynodi yn SDdGA – mae'n amlwg bod hwn yn

anghysondeb y mae’n rhaid ei oresgyn. Mae dymuniad eang yn bodoli i ddatblygu terfynau cynllunio mwy rhesymol ar yr arfordir. Er nad yw hwn yn fesur gweithredu ar gyfer y Mesur, mae’n arwyddocaol iawn o safbwynt sicrhau ei ofynion.

Gweithred: Dylid annog yr Adolygiad Cynllunio a Fforwm yr Arfordir i fynd â hwn ymlaen a datblygu/cefnogi deddfwriaeth addas i’w sicrhau.

***Adran 28 (1) Yn cyfeirio at bwy ddylai gael eu hysbysu gan gynnwys Cominwyr***

Sylw: Mae’r adran hon a sawl un sy’n dilyn yn datgan y dylid hysbysu pob perchennog a deiliad tir o ddynodiad eu tir. Er ein bod yn cytuno â hyn, mae’r mater o Dir Comin a Chominwyr yn parhau’n ddyrys. Mewn llawer achos nid oes modd lleoli pob Cominwr. Er nad yw’r mater hwn wedi golygu oediad afresymol yn nynodiad SDdGA yn y gorffennol, mae ganddo’r potensial i wneud hynny. Ceisiodd y Cynulliad Cenedlaethol, yn aflwyddiannus yn y pen draw, gynnwys rhywfaint o ddeddfwriaeth Tir Comin yn y Mesur hwn i fod o gymorth gyda rheolaeth Tir Comin, llawer ohonynt yn SDdGA.

Gweithred: Awgrymwn fod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried y dulliau gorau i fynd â deddfwriaeth yn ymwneud â Thir Comin ymlaen i helpu bioamrywiaeth, SDdGA, Tiroedd Comin a’r Cominwyr eu hunain.

***Adran 28 (D) 4 Y drefn apelio parthed caniatâd ac yn y blaen***

Gweithred: Awgrymwn fod panel o arbenigwyr yn cael ei sefydlu a bod cynghorwyr cadwraeth natur a defnydd tir annibynnol yn cael eu defnyddio i gynghori’r Cynulliad Cenedlaethol.

***Adran 28 (E) Yn ei gwneud yn ofynnol i Ymgymerwyr Statudol a Chyrff Cyhoeddus eraill gymryd camau rhesymol i hyrwyddo buddiannau SDdGA***

Sylw: Mae gan hwn oblygiadau tebyg i’r Cymal Bioamrywiaeth (Adran 69) a dyletswydd Cynaladwyaeth y Cynulliad ei hun.

Gweithred: Dylai’r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi canllawiau eglur i ASPBs ac Awdurdodau perthnasol eraill ar eu dyletswyddau parthed SDdGA.

***Adran 28 (F) Yn ymwneud â sicrhau gwarchodaeth SDdGA a chadwraeth natur gan Ymgymerwyr Statudol ac Awdurdodau perthnasol eraill***

Sylw: Mae gwir gyfrifoldeb cyrff o’r fath i weithredu ar sylwadau gan y Cyngor Cefn Gwlad yn amwys ac yn ddryslyd yn y Mesur. Waeth beth yw pwysigrwydd neu fel arall eu gweithred

arbennig gallent, fel mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, barhau i anwybyddu sylwadau'r Cyngor Cefn Gwlad.

Gweithred: Gan fod hwn yn gwrthdaro gyda dyletswyddau Cynaladwyaeth ehangach y Cynulliad, awgrymwn y dylai'r Cynulliad ddatblygu Canllawiau Arweiniad ar gyfer sut y dylent ymateb i brif bryderon. Dylai hyn ddangos sut y gellir datrys diffyg cydbwysedd cenedlaethol buddiannau SDdGA a diddordebau'r SU ei hun.

***Adran 28 (H) Datblygiad Cynlluniau Rheolaeth ar gyfer SDdGA***

Sylw: Ar hyn o bryd, nid oes cofnod cyhoeddus o amcanion rheolaeth, datganiad/cynllun rheolaeth, nag ar adrodd a yw pob SDdGA wedi cyrraedd statws cadwraeth ffafriol (fel y'i diffinnir yn yr amcanion rheolaeth). Credwn y dylai'r wybodaeth hwn fod yn rhan o gofnodion cyhoeddus.

Gweithred: Dylai Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol lunio cynigion ynglyn â sut y dylid gosod gwybodaeth o'r fath o fewn cyrraedd y cyhoedd.

***Adran 28 (I) & (J) Sicrhau Hysbysiadau Rheolaeth***

Sylw: Gellir trin y rhain hefyd mewn ffordd debyg i adran 28 (H) uchod.

Diweddglo:

Gan fod y mesur hwn wedi derbyn cefnogaeth y cyhoedd, mae Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru yn hyderus y bydd y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r mesurau. Am yr un rheswm, rhaid sicrhau bod yr arian hanfodol ar gael i'r Cynulliad ei hun, y Cyngor Cefn Gwlad, awdurdodau lleol ac ar gyfer gwaith gwirfoddol.

**Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Cymru**

**Tachwedd 2000**